

Profiadau Bywyd y Plentyn



Beth ydy o?

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn amlygu'r angen am ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y plentyn. [Gweithdrefnau Diogelu Cymru](#)

Rhan ganolog o hyn yw cael ciplun o brofiadau bywyd pob plentyn yn y teulu. Mae'n hanfodol cael cipolwg ar eu byd er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r anghenion sy'n cael neu ddim yn cael eu diwallu.

Sut mae hyn yn ein helpu ni?

Mae dysgu am ddiwrnod ym mywyd pob plentyn, pa rannau o'r diwrnod yw'r rhai cadarnhaol; pa rannau o'r diwrnod nad ydynt yn ei hoffi neu sy'n eu gwneud yn drist, yn rhoi gwell dealltwriaeth o effaith ymddygiad rhieni.

Profiad Bywyd

- Mae'n rhoi llais i'r plentyn neu'r unigolyn ifanc
- Mae'n galluogi ymarferwyr i gamu i mewn i esgidiau'r plentyn

- Mae'n sicrhau bod plant sydd wedi encilio neu sydd ar yr ymylon i fod yn fwy gweladwy
- Mae'n ein galluogi i adnabod a mynd i'r afael â gwahanol anghenion brodyr a chwiorydd.

Pwy sy'n gwneud hyn?

Dylid cytuno yn y cyfarfod cyntaf (strategaeth / dechrau'r broses asesu) pwy sydd yn y sefyllfa orau i gasglu'r wybodaeth gan y plant.

Dylai'r dasg hon gael ei gwneud gan rywun sydd â pherthynas

ddibynadwy gyda'r plentyn yn barod ac y bydd y plentyn yn ymateb iddo/iddi orau.

Awgrymiadau

- Penderfynu ble i gynnal y drafodaeth
- Meithrin cydberthynas gyda'r plenty
- Culhau'r drafodaeth i un diwrnod penodol i'w gwneud yn haws i'r plentyn ddwyn digwyddiadau i gof
- Defnyddio cwestiynau agored

Sut mae'n cael ei wneud?

Mae nifer o offer y gall yr ymarferwyr eu defnyddio i gasglu'r wybodaeth. Mae'r awgrymiadau yn cynnwys:

- Cynhyrchu llinell amser o ddiwrnod ym mywyd y plentyn, defnyddio bwrdd darlunio sy'n dangos pob cam o'r broses.
- Defnyddio lluniau / symbolau, defnyddio cloc.
- Defnyddio offer sy'n addas i oedran y plentyn
- Defnyddio datganiadau dechrau sgwrs, e.e. Beth yw trefn dy

ddiwrnod arferol?

Sut mae'n cael ei gyflwyno?

- Dylai'r wybodaeth fod ar gael yn y cyfarfod amlasiantaeth cyntaf ac yna dylid ailedrych arno ym mhob adolygiad.
- Wrth ysgrifennu adroddiad am brofiad bywyd dyddiol y plentyn, mae'n bwysig ceisio defnyddio 'Rydw i' ac iaith wirioneddol y plentyn cymaint ag sy'n bosibl.

<https://www.bwrdddiogelugogledcymru.cymru/>

<https://www.diogelu.cymru/>